Polisi Goruchwylio Dysgwyr.

Datganiad Polisi.

Y mae Ysgol Gyfun Gwynllyw wedi ymrwymo i sicrhau fod disgyblion yn ddiogel ac yn cael eu goruchwylio yn briodol yn yr ysgol ac yn ystod gweithgareddau ysgol neu ar ymweliadau addysgol. Y mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau fod:

- Goruchwylio disgyblion a diogelwch disgyblion bob amser yn rhan o Asesiad Risg ar gyfer unrhyw weithgaredd neu ymweliad
- Goruchwylio disgyblion yn cymryd i ystyriaeth oed, aeddfedrwydd, anghenion a nifer y disgyblion, yn ogystal â'r lleoliad a'r math o weithgaredd sy'n digwydd
- Cyfartaledd staff ar gyfer goruchwylio o fewn amcanion y llywodraeth ar bob achlysur pan fo disgyblion ynghlwm â gweithgareddau ar safle'r ysgol, neu ar ymweliadau addysgol oddi ar y safle

Y mae cylch/rota dyletswydd staff addas yn ei le sy'n dangos lefelau goruchwyliaeth staff. (gweler Atodiad 1 a 3)

Gweithdrefnau

Gweithdrefnau ar gyfer Dechrau'r Diwrnod Ysgol

Gall dysgwyr fynychu'r clwb Brecwast o 8.30am ymlaen.

Mae diwrnod y staff dysgu yn dechrau am 8.40am.

Cyn dechrau amser cofrestru ffurfiol am 8.50yb, y mae gan ddisgyblion hawl i gael mynediad i'r prif adeilad. Mae pedwar aelod o staff ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod hwn, o 8.40 ymlaen, er mwyn cadw golwg ar ymddygiad, dau y tu allan er mwyn cael trosolwg dros ddiogelwch y disgyblion wrth iddynt ddod oddi ar y bysys ac i sicrhau eu bod yn aros ar dir yr ysgol. Ni chaniateir i ddisgyblion adael tir yr ysgol unwaith eu bod wedi cyrraedd. Y mae dau aelod o staff ychwanegol ar ddyletswydd y tu fewn i'r adeilad (gweler Atodiad 1).

Gweithdrefnau Cyffredinol Diwrnod Ysgol

Ni does hawl gan ddisgyblion ym mlynyddoedd 7 – 11 i adael safle'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol, onibai eu bod ar wibdaith ysgol, neu mewn gweithgaredd chwaraeon, neu yn mynychu apwyntiad sydd wedi cael ei drefnu o flaen llaw ee apwyntiad meddygol/deintyddol neu unrhyw apwyntiad arall. Dylid rhoi manylion yr apwyntiad o flaen llaw i'r Athro/Athrawes Ddosbarth neu i Aelod o'r Swyddfa. Dylai'r disgybl o dan sylw arwyddo allan yn y Dderbynfa, ac arwyddo nôl mewn os y dychwelant cyn diwedd y diwrnod ysgol.

Y mae caniatad i ddisgyblion Blynyddoedd 12 ac 13 adael safle'r ysgol ar amseroedd y cytunwyd arnynt gan y tiwtoriaid a Phennaeth Blwyddyn 12/13. Disgwylir iddynt arwyddo allan yn y llyfr arwyddo mewn ac allan sy'n cael ei gadw yn y Dderbynfa.

Goruchwylir pob dosbarth gan yr athro/athrawes perthnasol neu gan athro/athrawes gyflenwi. Bydd yr athro/athrawes yn cymryd y gofrestr a dylsent roi gwybod i staff swyddfa'r ysgol ar unwaith os oes unrhyw ddisgyblion yn absennol heb ganiatad blaenorol. Y mae ffôn ymhob dosbarth a gellir galw am gymorth athrawon eraill ar fyr rybudd.

Gweithdrefnau ar Gyfer Amser Egwyl ac Amser Cinio

Gwnaiff pob aelod o staff eu rhan wrth ymgymryd â dyletswyddau amser egwyl. Y mae bob amser aelodau o staff ar ddyletswydd, yn cerdded o gwmpas ac yn monitro. Cânt eu lleoli yn strategaethol o amgylch adeiladau'r ysgol ac ar dir yr ysgol. (gweler Atodiad 1) Yn ystod tywydd gwlyb, caniateir i ddisgyblion aros yn yr adeilad ond dylsent aros yn y manau penodedig ar gyfer eu blwyddyn. (Gweler Atodiad 2). Y mae athrawon ar ddyletswydd yn y mannau hyn i sicrhau diogelwch a safon dda o ymddygiad. Disgwylir i ddisgyblion ddilyn y côd ymddygiad ar bob achlysur ac ymddwyn mewn modd aeddfed, gan gadw eu hunain o dan reolaeth. (Gweler Polisi Disgyblaeth yr Ysgol). Y mae o hyd aelodau o staff ar ddyletswydd yn y ffreutur er mwyn cadw trefn.

Y mae dau aelod o'e UDR ar ddyletwswydd yn ystod Amser Cinio, yn ogystal ag o leiaf dau aelod arall o'r tîm bugeiliol. Gwirfoddola aelodau eraill o'r staff i wneud dyletwydd cinio ond nid oes unrhyw orfodaeth arnynt i wneud hyn. Serch hynny, yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, y mae digon o athrawon yn cyflawni'r ddyletswydd hon er mwyn sicrhau diogelwch a lles y disgyblion. (gweler Atodiad 3).

Y mae safle'r ysgol yn eang a dylai'r disgyblion ddilyn y côd ymddygiad ar bob achlysur, gan gymryd y cyfrifoldeb dros eu hymddygiad eu hunain yn ystod yr awr ginio. Caiff unrhyw ddigwyddiad sy'n codi yn ystod yr awr ginio eu archwilio yn drylwyr, a delir gyda phob un yn unol â'r camau sy'n cael eu rhestri yn y Polisi Disgyblaeth Ysgol.

Caiff disgyblion Ysgol Gyfun Gwynllyw eu hannog i achub ar bob cyfle yn ystod eu hawr ginio drwy gymryd rhan yn yr amrywiol weithgareddau allgyrsiol a gynigir yn wirfoddol gan yr athrawon

Gweithdrefnau ar gyfer Diwedd y Diwrnod Ysgol.

Ni ddylai'r disgyblion adael eu dosbarthiadau hyd nes fod cloch ola'r dydd wedi canu. Y mae pmp aelod o staff ar ddyletswydd bob dydd, gan gynnwys un aelod o'r UDR, a lleolir athrawon mewn mannau penodol ar tu allan yr ysgol er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ddiogel wrth iddynt adael yr adeilad ac esgyn i'r bysys.

Ni fydd aelod yr UDR yn gadael hyd nes bod pob disgybl wedi gadael safle'r ysgol yn ddiogel.

Mewn ambell achos, ee pan fo bws yn hwyr yn cyrraedd, gofynnir i'r disgyblion ddychwelyd i'r Neuadd fel eu bod yn ddiogel yno tan fod y bws yn cyrraedd neu hyd nes y gwneir trefniadau eraill ar eu cyfer. Bydd yr aelod o'r UDR yn aros ar ddyletswydd er mwyn goruchwylio'r disgyblion.

Gweithdrefnau pan mae'r larwm dân yn canu.

Dylai'r athrawon a'r disgyblion adael yr adeilad mewn modd trefnus gan ddefnyddio'r allanfeydd tân sydd agosaf at yr ystafelloedd dosbarth y maent ynddynt ar y pryd, gan fynd yn syth i'r bae bysys, gan aros mewn llinell gyda'u dosbarth cofrestru. Y mae'r disgyblion a'r athrawon yn gwybod am y man penodol lle maent i fod sefyll (gweler Atodiad 4).

Bydd y swyddogion tân penodedig yn archwilio'r adeilad gan adrodd nôl i'r Prifathro neu i aelod yr UDR. Bydd pob athro dosbarth yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol os oes unrhyw ddisgybl yn absennol oddi ar y gofrestr.

Ni roddir caniatad i unrhywun ddychwelyd i'r adeilad hyd nes y ceir cadarnhad nad oes unrhyw berygl pellach.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu yn flynyddol gan y Tîm Bugeiliol a'r UDR.

Atodiad 1 **Dyletswyddau 2015/2016**

Bore

	Llun	**Mawrth**	**Mercher**	**Iau**	**Gwener**
Coridor/ Swyddfa/Bae Bysys **8.40-8.50**	IL LBF	HT HW	KAP LLP	REB FFM	JLJ NFJ
8.40-8.50 Ffreutur /Llanofer	RHC RaJ	EL LJN	BEM TLH	GH LJN	HLH TLH
8.50-9.00 Prysuro	AW	CWL	CJ	RHWD	HR
Disgyblion i fod tu allan yr Ystafelloedd Dosbarth erbyn 8.50. Staff ar ddyletswydd i'w hannog i fod yn brydlon. Uchelseinydd ar gael o'r swyddfa ysgol.					

Amser Egwyl

Lleoliad	**Llun**	**Mawrth**	**Mercher**	**Iau**	**Gwener**
Prif Neuadd, Bloc Chweched Dosbarth, Prif Goridor.	GM LLD	RJW GH	BTJ BEH	EHH BMM	GLC EHH
Stiwdio Ddrama. Bloc Gwyddoniaeth.	DAD LLP	JBl LLD	ADJ DAD	APJ IT	MDA REB
Tu allan i flaen yr ysgol. Llanofer, Y Pentref a'r cae chwarae.	APJ MGL SHa	RJS IL ChB	KAP JLJ KaE	EL KaE NHW	OMW KTh NHW
Tu fewn Llanofer	SWB SHJ	SHJ HLH	BGF RHR	SWB BGF	RHR BH
Ffreutur.	ADJ DHT RaJ	MDA BEM KTh	OMW BMM SHa	DEO GJ RHC	LT DAO ChB
Glyndwr	NLM SR	DEO BKB	RHE REH	LT NG	NLM BEH
Adeilad Lillian Jones	REH LEE	EMJ MGL	LLR NFJ	LEE FFM	EMJ LBF

Diwedd y Dydd – Dyletswydd Bws.

	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
Llwybr sy'n dod o'r Prif Adeilad	RhWD	AW	CWL	CJ	HR
Giat ar ben pellaf y bae bysys	RhJ	LMJ	HT	DMJ	JPR
Atal bysys sy'n hwyr rhag dod mewn i fae'r bysys	GE	MR	GJ	AEW	DY
Grisiau sy'n arwain at y bae bysys.	JBR	IT	NG	GEJ	ALD
Croesi i'r iard fysys	DHT	HW	LJ	DAO	RD
Wrth gefn.					HEG

Atodiad 2

Gweithdrefnau Tywydd Gwlyb.

Dylai disgyblion aros yn y mannau penodedig ar gyfer eu blwyddyn ysgol. Dylsent ymddwyn mewn modd addas fel sydd wedi cael ei amlinellu ym Mholisi Disgyblaeth yr Ysgol.

Blwyddyn 7	Llawr Gwaelod Bloc Glyndwr
Blwyddyn 8	Llawr Uchaf Bloc Glyndwr
Blwyddyn 9	Bloc Lilian Jones
Blwyddyn 10	Llawr Isaf Bloc Llanofer
Blwyddyn 11	Llawr Uchaf Prif Adeilad

Atodiad 3

Dyletswyddau Cinio 2015/2016

Diwrnod	Wythnos	Awr Gyfan Ffreutur	Awr Gyfan Ffreutur/ Llanofer	Glyndŵr Awr Gyfan	Glyndŵr/ LMJ 30 munud cyntaf	Ffreutur/ Llanofer 30 munud cyntaf
Llun	**W1**	**CJ**	**CWL**	**Pen Bl**	**LBF RhC**	**HW JLJ**
Mawrth	**W1**	**RhW**	**CJ**	**Pen Bl**	**BKB SHJ**	**RhR GJ**
Mercher	**W1**	**CWL**	**HR**	**Pen Bl**	**JPR RhE**	**IL BGF ALD/LLR**
Iau	**W1**	**HR**	**AW**	**Pen Bl**	**REH HT**	**OMW ADJ HLH/BH**
Gwener	**W1**	**AW**	**RhW**	**Pen Bl**	**LEE BEH**	**REB LT**
Llun	**W2**	**CJ**	**CWL**	**Pen Bl**	**NG BEM**	**DY DHT**
Mawrth	**W2**	**RhW**	**CJ**	**Pen Bl**	**DEO LlP**	**AEW NLM**

Mercher	**W2**	**CWL**	**HR**	**Pen Bl**	**EMJ(CLP) FfM**	**NFJ LlD**
Iau	**W2**	**HR**	**AW**	**Pen Bl**	**MGL APJ**	**KAP SWB**
Gwener	**W2**	**AW**	**RhW**	**Pen Bl**	**GLC BMM**	**LJ LT BEH**

Cynllun Ymgynnull Tân.

Cynllun Ysgol Gyfan ar gyfer Ymgynnull Tân (08:40 -15.05 Cofrestru – Gwers 9) Bae Bysys
Ymwelwyr, Staff Swyddfa, Technegwyr & Staff nad ydynt yn gyfrifol am ddosbarth cofrestru i ymgynnull ar ben y grisiau sy'n arwain at y bae bysys.

Bae 1 - 8		**Bae 9 - 14**	
Bl.9 MR		**Bl. 12 & 13 LMJ / LJ**	
9W2 **EHH**	Bae 8	13G **JBL/LUR**	Bae 14
9W1 **DAO**		13B **DY**	
9Rh1 **OMW**		13T **MGL**	
9Rh2 **RHR**			
9Ll1 **DEO**			
9Ll2 **KAP**	Bae 7	12S **EL / BH**	Bae 13
9 Eb1 **IL**		12G **BKB / RHE**	
9Eb2 **SWB**		12B **GF**	
Bl.8 DMJ		12T **EMJ**	
8W2 **JLJ**	Bae 6		
8W1 **NG**		**Bl. 11 GE & GM**	
8Rh2 **SHJ**	Bae 5	11 W1 **ADJ**	Bae 12
8Rh1 **DHT**		11Rh2 **DAD**	
8Ll2 **MDA**		11Rh1 **LLD**	
8Ll1 **BEH**	Bae 4	11Ll2 **NFJ**	
8Eb2 **BMM**		11Ll1 **LJ**	Bae 11
8Eb1 **REB**		11Eb2 **LBF**	
Bl.7 RhJ		11Eb1 **LT**	
7W2 **BEM**	Bae 3		
7W1 **AJO**		**Bl. 10 RJW**	
7Rh2 **LEE**		10W2 **GJ**	Bae 10
7Rh1 **AEW**	Bae 2	10W1 **HLH**	
7Ll2 **REH**		10Rh1 **GH**	
7Ll1 **JPR**		10Rh2 **NLM**	Bae 9
7Eb2 **FFM**	Bae 1	10Ll1 **ALM**	
7Eb1 **LLP**		10Eb1 **RD**	
		10Eb2 **GLC**	

Man Ymgynnull Tân (15.05 -15.35) Gwers 10 – Ar y prif Gae Chwarae, yr un sydd bellaf oddi wrth yr adeilad. **Ymwelwyr, Staff Swyddfa, Technegwyr & Staff nad ydynt yn gyfrifol am ddosbarth cofrestru i ymgynnull ar ben y grisiau sy'n arwain at y bae bysys.**

Bl.7	**Bl.8**	**Bl.9**	**Bl.10**	**Bl.11**	**Bl.12 & 13**
Mewn dosbarthiadau cofrestru	Mewn dosbarthiadau cofrestru	Mewn dosbarthiadau cofrestru	Mewn dosbarthiadau cofrestru	Mewn dosbarthiadau cofrestru	Mewn dosbarthiadau cofrestru